Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL ADRODDIAD BLYNYDDO MONITRO'R IAITH GYMRAEG AR GYFER 2020-2021

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Adran 1 - Rhagair** | **Tudalen 3** |
| **Adran 2 - Cyflwyniad** | **Tudalen 4** |
| **Adran 3 - Cynnydd ar Weithredu Safonau'r Gymraeg** | **Tudalen 5 -13** |
| **Adran 4 - Manylion Cyswllt** | **Tudalen 14** |

## ADRAN 1

## RHAGAIR

Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei Hysbysiad Cydymffurfiaeth terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Amlinellodd hyn ddyletswydd y Cyngor i fodloni Safonau'r Gymraeg statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rhoddodd y Mesur hwn statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg fel na ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg i sicrhau y gall y rhai yng Nghymru sy'n dymuno byw eu bywydau yn Gymraeg wneud hynny trwy orfodi Cynghorau a chyrff sector cyhoeddus eraill, i ddarparu'u gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg yn mynnu bod y Cyngor yn llunio Adroddiad Blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, gan ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisïau a Chynnal Safonau Gweithredol. Mae'r Safonau hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyhoeddiad a chyhoeddusrwydd yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi cynnydd y Cyngor tuag at gydymffurfio â'r Safonau yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-2020.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i annog ei holl gwsmeriaid i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, ac i greu amgylchedd lle maen nhw'n teimlo y gallant ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Sector Gwirfoddol (yn benodol Menter Iaith Merthyr Tudful) i'n helpu i gyflawni ein rhwymedigaethau yn llwyddiannus i'r gymuned o dan y ddeddfwriaeth.

**Y Cynghorydd Andrew Barry**
**Yr Aelod Cabinet Dros Lywodraethiad a Gwasanaethau Corfforaethol**

**Y Cynghorydd Chris Davies**
**Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Hyrwyddwr Iaith Gymraeg**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

## ADRAN 2

## CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

### SAFONAU'R GYMRAEG

Yn 2011, cafodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ei disodli gan Fesur y Gymraeg (Cymru) ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid oes raid bellach i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg, ond mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg yn lle hynny.

Mae'r Safonau'n esbonio'r modd y disgwylir i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r Mesur yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau ymddygiad ynghylch y Gymraeg. Mae'r Mesur yn nodi y gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu Safonau yn y meysydd canlynol:

- Cyflenwi Gwasanaethau;
- Llunio Polisïau;
- Gweithredu;
- Hybu;
- Cadw Cofnodion.

Nod y Safonau yw:

- gwneud yn glir i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg;
- gwneud yn gliriach i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella eu hansawdd.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.

Wrth arfer ei swyddogaethau'n unol â'r prif nod yma, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw:

- I statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- I'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy gyfraith a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny
- I'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac
- I'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Allan o God Ymarfer Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) Rheoliadau 215, Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, 19 Chwefror 2020

## ADRAN 3

## CYNNYDD AR WEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG

Mae'r canlynol yn crynhoi peth o'r cynnydd allweddol y mae'r Cyngor yn ei wneud wrth weithredu'r Safonau:

### RHAGLEN IAITH GYMRAEG

Mae'r Cyngor wedi datblygu Rhaglen Iaith Gymraeg sy'n cynnwys y 10 prosiect a restrir isod. Mae'r Rhaglen wedi'i strwythuro o amgylch cydymffurfio â'r Safonau, cyfieithu a hyrwyddo'r Gymraeg.

- Ffôn a'r Dderbynfa
- Gohebiaeth.
- Cyfryngau Cymdeithasol.
- Gwefan.
- Hyfforddiant Iaith Gymraeg.
- Ymgyrch #Shwmaergylch.
- Ymarfer Cwsmer Cudd.
- Cyfieithu Cymraeg.
- Adroddiadau Blynyddol ar y Gymraeg.

Mae'r Rhaglen Iaith Gymraeg yn rhan o Raglen Newid a Llesiant y Cyngor sy'n cefnogi'r dasg o gydymffurfio â'r Safonau a chyflawni'r canlynol:

- Nod Llesiant: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu.
- Strategaeth y Cyngor ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg a Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Miliwn o Siaradwyr Cymraeg.

Yn sgil COVID-19, nid oedd gweithredu'r prosiectau uchod yn bosibl. Trefnwyd lleoliad gwaith gyda Phrifysgol De Cymru ar gyfer Swyddog Cefnogi'r Gymraeg ond yn sgil cyfyngiadau COVID-19 nid oedd yn bosibl i hyn fynd rhagddo. Nid yw'r Cyngor wedi medru ymgymryd â'r ymarfer Siopwr Cudd chwaith.

### ASESU EFFAITH

#### Asesiad Effaith Integredig

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf,) mae'r Cyngor wedi datblygu Asesiad Effaith Integredig (AEI.) Mae'r AEI yn cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) Rheoliadau 2011 a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r AEI yn cael ei gyflwyno ar y cyd ag adroddiadau i'r Cabinet a'r Cyngor fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae Aesiadau Effaith Integredig yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ynghyd â'r adroddiad perthnasol gan y Cabinet neu'r Cyngor.

Mae'r AEI yn cefnogi'r Cyngor er mwyn arddangos sut y mae ei wasanaethau cynllunio, darparu a monitro yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy a sut y mae'n ceisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Merthyr Tudful, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy:

- Feddwl am effaith **hirdymor** ein gwaith ar drigolion Merthyr Tudful
- Cymryd dull integredig o weithio ar gyfer ein gwasanaethau gan edrych ar yr effaith allai'n gwaith ei gael ar wasnaethau a sefydliadau eraill
- Sicrhau fod pobl **yn rhan** o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- Gweithio gydag erail, er mwyn canfod atebion **ar y cyd**
- Deall prif achosion problemau a'u **hatal** rhag digwydd eto




Mae'r AEI (a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 26 Medi 2018) yn hepgor y broses EqIA ac yn ymgorffori Amcanion Llesiant y Cyngor, yr Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy, Cydradoldeb, yr Iaith Gymraeg a Bioamrywiaeth er mwyn gallu gwneud penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cydraddoldeb 2010 (Swyddogaethau Statudol (Cymru) Rheoliadau 2011
- Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011
- Adran 6 o Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Dyletswydd cymdeithasol-economaidd (Adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010)

Mae'r AEI wedi cael ei atodi i Fframwaith Reoli Prosiect CBSMT a chafodd ei ddefnyddio ar gyfer Adroddiadau'r Cyngor a'r Cabinet o Hydref 2018 ymlaen.

Mae'e AEI yn cael ei gefnogi gan ganllawiau manwl er mwyn cynorthwyo staff i gwblhau'r ddogfen sydd ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor.

## Gweithredu Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg a'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg

### Eisteddfod T yr Urdd

Yn sgil pandemig Coronafeirws, nid oedd yn bosibl cynnal digwyddiad blynyddol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai 2020. Yn lle hynny, cafodd Eisteddfod T ar-lein ei chynnal ble y cafodd pob ymgais am gystadleuaeth ei chyflwyno drwy fideo. Cymerwyd rhan gan Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful ym Merthyr Tudful a daeth un o ddisgyblion yr ysgol hon yn gyntaf mewn cystadleuaeth ddawns greadigol unigol. Yn 2021 bydd Eisteddfod T yr Urdd yn digwydd unwaith eto ac mae tair ysgol am gymryd rhan eleni sef: Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful, Ysgol Uwchradd Pen y Dre ac Ysgol Gynradd Coed y Dderwen.

### Llyfryn Bod yn Ddwyieithog

Ym mis Gorffennaf 2020, sefydlwyd gweithgor yn cynnwys partneriaid o Fforwm Addysg Gymraeg a swyddogion i greu Llyfryn Bod yn Ddwyieithog. Mae'r llyfryn marchnata hwn yn darparu gwybodaeth a chyngor i rieni cyfredol ac arfaethedig am fuddion a manteision anfon eu plant i Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'n darparu gwybodaeth am sefydliadau

cenedlaethol a lleol a all ddarparu adnoddau ac ateb unrhyw gwestiynau am Addysg Cyfrwng Cymraeg.

**Diwrnod Shwmae Su'mae**

Ar gefn llwyddiant digwyddiad Diwrnod Shwmae Su'mae yn 2019 cafodd digwyddiad ei drefnu eto eleni mewn partneriaeth ag aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg. Yn sgil y pandemig, digwyddodd hwn ar-lein. Yn ystod y dydd hyrwyddwyd y defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc, y gymuned, y gweithlu a'r teulu. Cyfranogodd Aelodau Cabinet a'r Maer yn y digwyddiad hefyd. Gwnaeth yr actores Donna Edwards, cyn-ddisgybl Ysgol Faenor a Phenderyn sydd wedi dysgu'r Gymraeg, ddarparu gwybodaeth am y profiadau a gafodd wrth ddysgu'r Gymraeg a pha gyfleoedd a gafodd yn sgil hynny. Roedd amrediad y niferoedd a wyliodd ar y cyfryngau cymdeithasol o 254 i 2,100. Cafodd y digwyddiad sylw ar y teledu hefyd.

**Cyngerdd Carolau Cymraeg**

Ar 17 Rhagfyr cafodd cyngerdd carolau Cymraeg ei rannu ar You-Tube. Unwaith yn rhagor roedd hon yn bartneriaeth gydag aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg. Cafwyd eitemau oddi wrth y gymuned a staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a gwnaeth wyth ysgol hefyd ddarparu eitemau. Cafwyd perfformiadau gan bobl ifanc o Ferthyr Tudful sydd wedi derbyn Addysg Cyfrwng Cymraeg a oedd yn darlunio sut y maen nhw'n defnyddio'r iaith yn eu gyrfa ac yn gymdeithasol. Gwnaeth 1,332 o bobl wylio'r digwyddiad.

**Digwyddiad #SHWMAERONMENT**

Ym mis Mawrth 2021, trefnwyd #SHWMAERONMENT i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol o fewn teuluoedd, plant a phobl ifanc, y gymuned a'r gweithlu. Unwaith yn rhagor, roedd y digwyddiad ar-lein yn sgil y pandemig. Dechreuodd y digwyddiad ar Ddydd Gŵyl Dewi gan barhau am dair wythnos gydag ambell fideo yn cael ei dangos bob dydd ar dudalen Facebook y Cyngor a chyfweliad teledu gyda Swyddog Iaith Gymraeg y Cyngor i hyrwyddo'r digwyddiad. Ar y diwrnod olaf, cafodd yr holl berfformiadau eu hail-ddangos. Gwyliwyd y digwyddiad gan 3,400 o bobl gan gynnwys rhai aelodau o'r cyhoedd mor bell ag America ac Awstralia. Ymhlith y digwyddiadau roedd sesiwn holi ac ateb gyda Geinor Styles cyn-ddisgybl yn Ysgol Santes Tudful, sydd bellach yn Gyfarwyddwr Theatr na nOg - grŵp theatr mewn addysg genedlaethol. Gwnaeth yr Arglwydd Dafydd Wigley gyfrannu eitem hefyd am ei gyfnod a'i brofiadau ym Merthyr Tudful a sut yr ymladdodd dros Addysg Cyfrwng Cymraeg er ei fod yn awyddus i ddweud pa mor falch oedd o weld bod agweddau wedi newid. Gwnaeth Only Boys Aloud gyfrangoi yn y digwyddiad hefyd drwy ganu Calon Lan, a oedd yn cynnwys aelodau o Only Merthyr Aloud. Cymerwyd rhan y digwyddiad gan bob ysgol uwchradd, dau leoliad y blynyddoedd cynnar ac 12 ysgol gynradd drwy ddarparu fideo yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Fel rhan o'r digwyddiad lansiwyd cystadleuaeth farchnata. Gofynnwyd i'r holl ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol i greu baner hyrwyddo Strategaeth y Gymraeg. Cafodd pob ymgais ei beirniadu gan Arweinydd y Cyngor a Phencampwr y Gymraeg y Cyngor a daeth yr ymgeiswyr buddugol o Ysgol Uwchradd Pen y Dre, Ysgol Gynradd Abercannaid ac Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair.

Fel rhan o weithredu Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd o hyd a Chynllun Strategol y Gymraeg, gwnaeth dysgwyr y Cyngor gyfrannu at weithredu prosiectau drwy ymgymryd â gweithgareddau a datgan eu rhesymau dros benderfynu dysgu'r Gymraeg a'r budd a gawsant wrth wneud hynny.

**Canolfan Plant Integredig**

Yn ystod mis Chwefror, ymunodd y tîm Datblygu Iaith Gynnar gyda Rhigwm Mawr Cymru dan ofal Book Trust ar Facebook. Bob dydd gwnaethom ymuno ag Emma 'Ar y Fferm' ble roedd hi'n cwrdd â'r holl anifeiliaid am straeon, caneuon a rhigymau. Ymunodd plant Meithrin lleol o Ysgol Rhyd y Grug hefyd yn yr hwyl gan ddweud wrthym am eu hoff anifeiliaid fferm.
Cyfartaledd y ffigurau gwylio oedd 1,580.

Drwy gydol mis Mawrth bu'r tîm Datblygu Iaith Gynnar yn cyflwyno gair Cymraeg yr wythnos gyda help Iolo gan gyflwyno llawer o eiriau symud fel rhedeg, neidio, taflu. Cyfartaledd y ffigurau gwylio oedd 850.

**Dysgu Cymraeg Morgannwg**

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg i ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn y gweithle i staff a Chynghorwyr. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch hyrwyddo barhaus i annog staff a Chynghorwyr i fachu cyfleoedd i gael hyfforddiant ar y Gymraeg trwy sesiynau galw-heibio, sesiynau mewnrwyd a negeseuon e-bost, yn ogystal â sesiynau blasu.

Mae naw aelod staff wedi llwyddo i ennill Tystysgrif Lefel Mynediad CBAC mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg.

Cynhaliwyd yr holl gyrsiau a'r dysgu ar-lein eleni drwy Microsoft Teams. Cafodd dysgu anffurfiol ei gynnal hefyd mewn Sadwrn Siarad ble roedd dysgwyr yn bresennol i ymarfer defnyddio a siarad Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 10 aelod o staff yn dysgu Cymraeg yn y gweithle gan amrywio o Lefel Mynediad i Lefel Canolradd 1 a 2. Mae cyrsiau e-ddysgu Cymraeg Lefel 1 yn cael eu hyrwyddo i'r staff fel rhan o'n hadferiad Coronafeirws a chynllunio gwelliant ehangach (Cynllun Adfer, Gweddnewid a Gwella Cynllun AGaG)) wrth ddatblygu diwylliant ddysgu ar draws y Cyngor.

Wrth weithio mewn partneriaeth gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol parhaus i ddysgwyr gael gwrando ac ymarfer defnyddio'r Gymraeg. Yn y gorffennol bu dysgwyr o'r Cyngor yn cynorthwyo Dysgu Cymraeg Morgannwg wrth farchnata cyrsiau a chynnig unrhyw gymorth i hyrwyddo'r Gymraeg ledled Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

**Dysgu Cymunedol i Oedolion – y Gymraeg**

Yn dilyn Arolwg Estyn o Bartneriaeth DCO CBSMT (Chwefror 2020), cafodd argymhellion eu gwneud i gryfhau cysylltiadau o ran yr iaith Gymraeg. Cafodd y rhain eu hymgorffori i'r Cynllun Gweithredu dilynol. Mae Dysgu Cymraeg Morgannwg yn aelod allweddol o Bartneriaeth DCO, ac yn brif ddarparwr cyrsiau iaith Gymraeg ledled Cymru gan gynnwys y Fwrdeistref Sirol.

Ar lefel leol, mae'r tîm Addysg Oedolion wedi canolbwyntio ar sut mae tiwtoriaid addysg oedolion yn mewnblannu'r dimensiwn iaith Gymraeg er enghraifft drwy ddefnyddio Cymraeg achlysurol/damweiniol a chynnwys cyfeiriadau diwylliannol.
.
Fel rhan o'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus, gwnaeth tiwtoriaid fynychu sesiynau ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chwblhau cwrs iaith Gymraeg i ddechreuwyr.

**Gair/Dywediad Cymraeg Bob Pythefnos**

Er mwyn cefnogi staff a Chynghorwyr, mae'r Cyngor wedi datblygu'r Fenter Gair/Dywediad Cymraeg Bob Pythefnos.

Mae'r ymadroddion byrion Cymraeg yn ymddangos ar sgriniau cyfrifiadur bob pythefnos ac fe'u cynlluniwyd i helpu staff a Chynghorwyr i ddysgu Cymraeg busnes sylfaenol. Anogir staff a Chynghorwyr hefyd i ymarfer yr ymadroddion Cymraeg gyda'u cydweithwyr, eu ffrindiau a'u teuluoedd.

**Sgliliau Gwaith i Oedolion 2**

Mewn cyrsiau sgiliau iaith Gymraeg, cadwodd Sgiliau Gwaith i Oedolion 2, 4 ar gyfer Sgiliau Cymraeg Mynediad 3: Meithrinfeydd i Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar, ac 1 ar gyfer Sgiliau Cymraeg Mynediad 3: Derbyn.

**GWIRFODDOLWYR SY'N SIARAD CYMRAEG**

I ategu'r Hyfforddiant Gloywi ar Ddefnyddio'r Gymraeg i Gyfarch Cwsmeriaid a Thrin eu Galwadau dros y Ffôn, mae'r Cyngor wedi adolygu a diweddaru ei restr o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg a'i gosod ar fewnrwyd y staff.

Mae'r rhestr hon yn nodi'r aelodau staff sydd wedi gwirfoddoli i gynorthwyo'r Cyngor i siarad â chwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg, ac maen nhw'n cynnwys siaradwyr rhugl a dysgwyr i'w cefnogi wrth ymarfer eu Cymraeg.

**BOREAU COFFI CYMRAEG**

Mae'r staff yng Nghanolfan Dysgu'r Gymdogaeth CBSMT bellach yn cynnal bore coffi Cymraeg unwaith y mis. Caiff hyn ei wneud mewn amgylchedd anffurfiol a'r nod yw cael y staff ynghyd i ymarfer siarad Cymraeg â'i gilydd. Mae yna gymysgedd o staff – rhai yn ddysgwyr ac eraill yn rhugl yn y Gymraeg ond wedi colli'u hyder i'w siarad. Mae'r Swyddog Polisi Iaith yn mynychu ac yn arwain y sesiwn.

**GRŴP HYRWYDDWYR Y GYMRAEG**

Ym mis Hydref 2019, sefydlwyd Grŵp Hyrwyddwyr y Gymraeg ar gyfer aelodau staff y Cyngor. Pwrpas y grŵp hwn yw rhannu syniadau am arferion da i weld sut y gall adrannau weithredu Safonau'r Gymraeg a thrafod unrhyw faterion mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae Standiau Desg Cymraeg wedi'u creu ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn eu helpu ag ymadroddion sylfaenol a rhoi'r hyder iddynt i siarad yr iaith.

**Cymraeg Lefel 1**

O Ebrill 2021, bydd yn ofynnol i bob aelod newydd o staff ymgymryd â'r Gymraeg Lefel 1. Y cwrs 10 awr ar-lein, Cymraeg Gwaith yw hwn. Mae'n darparu hyfforddiant sylfaenol yn y Gymraeg am sut i wneud y canlynol:

- Sut i ateb y ffôn
- Rhoi cyfarwyddiadau a gwybodaeth i ymwelwyr allanol wrth iddynt ddod i mewn i'r adeilad
- Dysgu sut i ynganu rhifau
- Enwau lleoedd a misoedd y flwyddyn

Anogir pob aelod o staff i ymgymryd â'r cwrs fel rhan o'i ffocws yn y dyfodol wrth werthuso perfformiad (gwerthusiad blynyddol).

**CYFARFODYDD**

Erbyn hyn, mae'n arfer cyffredinol i agor cyfarfodydd yn Gymraeg ac mae defnydd o'r iaith ym mhob ffurf yn cael ei annog gan Uwch Reolwyr a Chynghorwyr fel ei gilydd.

**GRŴP DEDDF**

Mae'r Cyngor yn aelod gweithgar o'r Grŵp Deddf ac yn mynychu'i gyfarfodydd yn rheolaidd. Mae'r Grŵp Deddf yn wirfoddol ac yn cynnwys Swyddogion Iaith Gymraeg ar gyfer cyrff sector cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nod y Grŵp Deddf yw trafod a rhannu gwybodaeth ac arferion da mewn perthynas â'r Gymraeg.

**CHWARAEON YR URDD**

Yn sgil pandemig coronafeirws, ni fu'n bosibl i'r Urdd gynnal gweithgareddau gydag ysgolion a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae cynlluniau eisoes ar y gweill i ail afael ynddi yn ystod haf 2021.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Fel rhan o'r prosiect, mae partneriaethau ar waith gyda'r rhanddeiliaid allweddol canlynol i ddarparu cyfleoedd i gefnogi a datblygu'r Gymraeg:

- Menter Iaith Merthyr Tudful.
- Yr Urdd.
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ym Merthyr Tudful.
- Ysgol Gyfun Rhydywaun
- Heini Merthyr Tudful.
- Y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Y Coleg Merthyr Tudful.
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- Consortiwm Canolbarth y De
- Dysgu Cymunedol Oedolion

**CLWB DYSGU CYMRAEG CALFARIA**

Gyda chefnogaeth y Cyngor ac Aelod Cabinet y Cyngor dros Adfywio Cymunedau a Diogelu'r Cyhoedd, sefydlwyd dosbarth Cymraeg cymunedol ym mhentref Heolgerrig ym Merthyr Tudful. Gelwir y dosbarth yn *Clwb Dysgu Cymraeg Calfaria* ac mae'n eiddo i'r gymuned ac yn cael ei redeg ganddi.

Ers Mawrth 2020, ni fu'n bosibl i gario ymlaen gyda'r digwyddiad Clwb hwn ond bydd y gweithgaredd yn ailddechrau yn ystod haf 2021.

## SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 87 o Safonau Cyflenwi Gwasanaeth.

Nid oes unrhyw Safon Cyflenwi wedi tramgwyddo Safonau'r Gymraeg.

## SAFONAU GWNEUD POLISI

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 16 o Safonau Gwneud Polisi.

Nid oes unrhyw Safon Gwneud Polisi dan ymchwiliad.

## SAFONAU GWEITHREDOL

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 53 o Safonau Gweithredol.

Nid oes unrhyw Safon Weithredol o dan ymchwiliad.

## SGILIAU IAITH GYMRAEG CYFLOGEION (AR SAIL Y COFNODION A GEDWIR YN UNOL Â SAFON 151):

| Sgiliau Gwrando | Nifer o Gyflogeion |
|---|---|
| Pob sgwrs gwaith | 108 |
| Mwyafrif sgyrsiau gwaith | 22 |
| Sgyrsiau arferol | 38 |
| Sgyrsiau cymdeithasol sylfaenol | 142 |
| Ymholiadau sylfaenol | 431 |
| Dim sgiliau | 85 |
| **Cyfanswm** | **826** |

| Sgiliau Darllen | Nifer o Gyflogeion |
|---|---|
| Pob deunydd gwaith | 103 |
| Y rhan fwyaf o ddeunydd | 40 |
| Deunydd cyffredin (gan ddefnyddio geiriadur) | 61 |
| Deunydd gwaith sylfaenol | 103 |
| Geiriau ac ymadroddion sylfaenol | 461 |
| Dim sgiliau | 58 |
| **Cyfanswm** | **826** |

| Sgiliau Siarad | Nifer o Gyflogeion |
|---|---|
| Rhugl – pob sgwrs | 104 |

| | |
|---|---|
| Y mwyafrif o sefyllfaoedd | 30 |
| Sgwrsio ag eraill | 45 |
| Ateb ymholiadau syml | 110 |
| Sgwrs gyffredinol | 413 |
| Dim sgiliau | 124 |
| **Cyfanswm** | **826** |

| Sgiliau Ysgrifennu | Nifer o Gyflogeion |
|---|---|
| Sgilgar - gwneud gwaith cymhleth | 86 |
| Mwyafrif testun ysgrifenedig | 36 |
| Testun arferol, gyda chymorth | 41 |
| Negeseuon sylfaenol | 378 |
| Gohebiaeth syml | 78 |
| Dim sgiliau | 207 |
| **Cyfanswm** | **826** |

**NIFER YR AELODAU STAFF AETH AR GYRSIAU HYFFORDDIANT A GYNHALIWYD YN GYMRAEG YN YSTOD Y FLWYDDYN (AR SAIL Y COFNODION A GEDWIR YN UNOL Â SAFON 152):**

Mae dros 40 aelod o staff rheng flaen wedi cael hyfforddiant i loywi'u sgiliau ffôn a chyfarchiad yn y Gymraeg, gan gynnwys staff o Ganolfan Gyswllt a Derbynfeydd y Cyngor.

Mae naw aelod staff wedi llwyddo i ennill Tystysgrif Mynediad CBAC mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 14 aelod o'i staff yn dysgu Cymraeg yn y gweithle gan amrywio o Lefel Mynediad i Lefel Canolradd 1 a 2. Oherwydd y Coronafeirws, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi penderfynu peidio â chynnal arholiadau eleni; fel arall, byddai 6 dysgwr wedi sefyll arholiad canolradd. Yn 2020/21, bydd y dysgwyr hyn hefyd yn mynychu Cwrs Preswyl Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn yng Ngogledd Cymru. Mae'r cwrs hwn ar gyfer Cymraeg yn y Gweithle ac wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

**OS CYNHELIR FERSIWN GYMRAEG O GWRS YN YSTOD Y FLWYDDYN, CANRAN Y STAFF A FYNYCHODD Y CWRS YN GYMRAEG (AR SAIL Y COFNODION A GADWOCH YN UNOL Â SAFON 152):**

Ddim yn gymwys.

**NIFER Y SWYDDI NEWYDD A GWAG A HYSBYSEBWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN A GATEGOREIDDIWYD FEL RHAI LLE - (I) ROEDD SGILIAU IAITH GYMRAEG YN HANFODOL, (II) ROEDD ANGEN DYSGU SGILIAU IAITH GYMRAEG YN DILYN PENODIAD I'R SWYDD, (III) ROEDD SGILIAU IAITH GYMRAEG YN DDYMUNOL, NEU (IV) NAD OEDD ANGEN SGILIAU IAITH GYMRAEG (AR SAIL Y COFNODION A GADWOCH YN UNOL Â SAFON 154):**

O blith 167 o swyddi, nid oedd yr un wedi nodi'r Gymraeg yn hanfodol a nododd 167 y Gymraeg fel dymunol.

**NIFER Y CWYNION A DDAETH I LAW YN YSTOD Y FLWYDDYN SY'N YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIANT Â'R SAFONAU YR YDYM O DAN DDYLETSWYDD I'W HARDDEL:**

Ni dderbyniodd Adran Cwynion y Cyngor yr un gŵyn ffurfiol mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2021.

## ADRAN 4

## MANYLION CYSWLLT

**Sut i gysylltu â ni**

Os hoffech gael copi o'r Adroddiad Blynyddol hwn mewn unrhyw fformat arall neu ei gyfieithu i iaith arall, cysylltwch â:

Ein Gwefan: www.merthyr.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Ffôn: (01685) 725000